Cyngor Cymuned Dolbenmaen

Nodiadau Cyfarfodydd

Dyddiad y cyfarfod	**5ed Ionawr, 2023.**
Presennol	John Jones (Cadeirydd), Michael Jones (Garndolbenmaen), Richard Parry, Edward Evans (Bryncir), Richard Williams, Gwilym Evans (Prenteg), Huw Pritchard (Pentrefelin), Megan Lloyd Williams (Golan), Gwenno Emlyn Huws (Penmorfa), Cynghorydd Stephen Churchman (Cyngor Gwynedd)
Ymddiheuriadau	Iddon Edwards (Penmorfa), Clifford Williams (Garndolbenmaen), John Till (Golan), Sarah Jones (Pentrefelin), June Jones (Cynghorydd Cyngor Gwynedd)
Datgan Buddiant	Gwilym Evans- Eitem 16(g) Megan Lloyd Williams a Gwenno Emlyn Huws – Eitem 13
Penderfyniadau	
Etholiadau 2022	Clerc i ddarganfod pa gynghorau cymuned eraill oedd a diffyg cworwm yn dilyn yr etholiad nôl ym mis Mai ac i gysylltu hefo'r Clercod i weld os ydynt yn rhannu'r un anfodlonrwydd hefo'r Gwasanaeth Etholiadau.
John Ystumllyn a Bwrdd Gwybodaeth	Mae'r ffurflen gais am Grant o'r Gronfa Celfyddydau Cymunedol gan Gyngor Gwynedd i gael arian tuag at ddarparu bwrdd gwybodaeth ym Mhentrefelin wedi'i gwblhau a'i gyflwyno. Clerc i gysylltu hefo'r Swyddog Adfywio Bro i gael cymorth hefo'r ffurflen Grant Treftadaeth y Loteri Genedlaethol.

Hwb Eifionydd	Awgrymwyd fod y Clerc yn cysylltu hefo'r Grŵp Cleifion i roi gwahoddiad i gyfarfod o'r Cyngor Cymuned am sgwrs.
Diffibriliwr Prenteg	Clerc i gysylltu gyda'r clwb "The Cave and Crag Club" i ddarparu manylion banc y Cyngor Cymuned er mwyn derbyn y rhodd ac i symud ymlaen hefo gwneud trefniadau i brynu'r diffib. Gwenno Hughes yn cynnig a Richard Williams yn eilio.
Cyfarfod Aml-leoliad	Awgrymwyd bod angen ymchwilio i gael cymorth i sefydlu cysylltiad band eang ym mhob un o ganolfannau cymdeithasol a'r neuaddau o fewn y gymuned. Clerc i gysylltu hefo Anwen Davies a Steffan Roberts o'r Adran Economi a Chymuned i weld os allent hwy wneud cyswllt hefo Pwyllgorau'r canolfannau a'r neuaddau i sefydlu eu hanghenion a'u cynghori ymhellach.
Hysbysfwrdd Pentrefelin	Adroddwyd bod un pris wedi'i dderbyn ar gyfer gwneud y gwaith o greu dau hysbysfwrdd newydd i'r pentref. Awgrymwyd ein bod yn gofyn am ddau bris arall cyn gwneud penderfyniad. Clerc i gysylltu hefo dau saer lleol am bris.
Sedd Wag Garndolbenmaen	Derbyniwyd un cais ar gyfer y sedd wag yng Ngarndolbenmaen gan Enid Egginton. Penderfynwyd cyfethol Enid Egginton. Richard Parry yn cynnig a Megan Lloyd Williams yn eilio.
Cyllideb 2023/24 a Praesept	Penderfynwyd cadw'r praesept yn £18,000.
Asesiad Risg	Trafodwyd Asesiad Risg 2022 a phenderfynwyd nad oedd angen ei newid. Megan Lloyd Williams yn cynnig a Richard Parry yn eilio.

Cynllunio

NP2/16/451B – Tir ger Pen y Bryn, Penmorfa, LL49 9SB. Adeiladu tŷ deulawr fforddiadwy, meddiannaeth leol, creu mynedfa newydd i gerbydau a thirlunio cysylltiedig. Penderfyniad: Dim Gwrthwynebiad

NP2/16/416C - Safle Garejis Argoed, Garndolbenmaen, LL51 9RX. Adeiladu tŷ deulawr ar wahân. Penderfyniad: Dim Gwrthwynebiad